

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Aneurin Bevan gan Arolygiaeth  
Gofal Iechyd Cymru 2015-16

Awst 2016

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**Ebo:** [agic@wales.gsi.gov.uk](mailto:agic@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

|    |  |    |
|----|--|----|
| 1. | Diben.....                                 | 2  |
| 2. | Trosolwg .....                             | 3  |
| 3. | Themâu Allweddol.....                      | 4  |
| 4. | Adolygiadau ac Ymchwiliadau Arbennig ..... | 8  |
| 5. | Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith .....  | 12 |
| 6. | Llywodraethu ac Atebolrwydd .....          | 14 |
| 7. | Ymgysylltu.....                            | 15 |
| 8. | Gwaith Arolygu.....                        | 16 |

## 1. Diben

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Ein diben yw darparu sicrwydd annibynnol a gwrthrychol i'r cyhoedd ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, gan wneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd er mwyn hyrwyddo gwelliannau.

Cynhyrchwyd yr adroddiad blynyddol hwn gan AGIC fel crynodeb o'r gweithgareddau a wnaed gan AGIC rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 mewn perthynas â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Y canlyniadau rydym yn ceisio dylanwadu arnynt o ganlyniad i'n gweithgareddau ynghylch hyn a byrddau iechyd/ymddiriedolaethau eraill yw:

- Bod profiad dinasyddion o ofal iechyd yn cael ei wella
- Bod dinasyddion yn gallu mynd at wybodaeth eglur a phrydlon ar ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Bod dinasyddion yn hyderus bod gwaith arolygu a rheoleiddio'r sector gofal iechyd yng Nghymru yn ddigonol, yn gymesur, yn broffesiynol, yn gydgysylltiedig ac yn ychwanegu gwerth.

## 2. Trosolwg

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd AGIC 39 arolygiad o leoliadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a oedd yn cynnwys:

- 1 arolygiad o ysbyty
- 4 arolygiad o bractisau cyffredinol
- 28 arolygiad o bractisau deintyddol
- 4 arolygiad yn ymwneud â'r Ddeddf Iechyd Meddwl
- 1 arolygiad o orchymyn triniaeth gymunedol
- 1 arolygiad o wasanaethau anabledd dysgu.

Yn y sector annibynnol, mae AGIC wedi cynnal 25 arolygiad o leoliadau yn ardal Aneurin Bevan, gan gynnwys:

- 1 arolygiad o hosbis
- 12 arolygiad yn ymwneud â'r Ddeddf Iechyd Meddwl
- 5 arolygiad o unedau iechyd meddwl
- 1 arolygiad o ysbyty deintyddol
- 5 arolygiad o beiriannau laser
- 1 cyfweiliad cyn cofrestru â rheolwr.

### 3. Themâu Allweddol

**Daeth y themâu allweddol canlynol i'r amlwg yn ystod arolygiadau a gynhaliwyd gennym yn ystod 2015-16.**

#### **Arolygiadau o Ysbytai'r GIG**

- Dywedodd cleifion a/neu eu gofalwyr wrthym eu bod yn hapus gydag ansawdd y gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi eu derbyn. Gwnaethom awgrymu y dylai'r bwrdd iechyd ystyried dulliau ychwanegol o gasglu adborth cleifion ynghylch gwasanaethau.
- Gwelsom fod timau staff yn garedig, yn ofalgar ac yn ymrwymo i ddarparu gofal i gleifion a oedd yn ddiogel ac yn effeithiol.
- Gwelsom fod staff yn gweithio i gynnal hawl cleifion i breifatrwydd ac urddas o fewn yr amgylchedd. Gwelsom fod ymwybyddiaeth ynglŷn â mentrau sy'n addas i gleifion â dementia ond nad oedd y rhain yn cael eu gweithredu bob amser, a gwnaethom awgrymu y dylid defnyddio arwyddion urddas yn ehangach i hyrwyddo urddas cleifion ymhellach.
- Roedd rhywfaint o amrywioldeb ac anghysondeb o ran cymhwyso safonau iechyd a gofal ar draws adrannau er mwyn darparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Yn benodol, roedd angen gwella agweddau ar y ffordd y mae meddyginiaethau'n cael eu rheoli a sut mae cofnodion gofal cleifion yn cael eu llenwi, ac roedd angen gwneud prosesau yn gyson.
- O fewn cofnodion gofal cleifion, gwelsom fod angen gwella ansawdd y gwaith cadw cofnodion o ran asesiadau risg cwmpo, cynlluniau gofal niwed gwasgu ac asesiadau risg maethol. Roedd angen gwneud prosesau yn gliriach ac yn fwy cyson, pan nodwyd risgiau.
- Ym maes rheoli meddyginiaethau, roedd angen gwneud gwelliannau o ran egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau am reoli meddyginiaethau ar lefel ward; o ran rhai agweddau yn ymwneud â storio, archwiliadau a gwiriadau stoc; ac o ran sicrhau bod yr holl gleifion yn gwisgo bandiau adnabod ar eu harddyrnau.
- Roedd y cofnodion hyfforddi a welsom yn dangos lefelau amrywiol o gydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol a sylfaenol. Roedd pecyn addysgol wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno'n ddiweddar gyda'r nod o helpu i ddatblygu sgiliau staff newydd a staff sydd eisoes yn gweithio yn y gyfarwyddiaeth trawma ac orthopedeg. Roedd angen gwella

cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

- Gwnaethom ganfod rhai enghreifftiau o arweinyddiaeth gref a chlr ar lefel ward a arweiniodd at dimau a wardiau sy'n cael eu rhedeg yn effeithiol. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod hefyd meysydd lle'r oedd yr arweinyddiaeth yn wannach ac roedd strwythur y tîm a'r ward yn dioddef o ganlyniad i hynny.
- Gwelsom fod nifer o newidiadau a mentrau cadarnhaol wedi cael eu cyflwyno gan uwch-nyrsys ar lefel cyfarwyddiaeth. Fodd bynnag, dywedodd rhai staff wrthym nad oeddent yn teimlo bod cysylltiadau da rhyngddynt nhw ac uwch-reolwyr.
- Gwelwyd tystiolaeth glir bod systemau ar waith i fonitro effeithiolrwydd a diogelwch gwasanaethau, ond gwnaethom ganfod ar lefel ward unigol bod y rhain yn cael eu defnyddio'n fwy effeithiol mewn rhai meysydd o'u cymharu ag eraill.

### **Arolygiadau o Bractisau Deintyddol y GIG**

- Dywedodd y cleifion a/neu eu gofalwyr wrthym eu bod yn hapus gyda'u triniaeth ddeintyddol.
- Yn gyffredinol, gwelsom gyfleusterau clinigol da o fewn y practisau.
- Roedd angen i nifer o bractisau wneud gwelliannau i bolisïau a threfniadau cwyno. Yn benodol, roedd hyn yn ymwneud â sicrhau bod y trefniadau cwynion yn nodi trefniadau'r GIG a'r trefniadau preifat ar wahân ac â sicrhau bod polisïau yn bodloni gofynion 'Gweithio i Wella'.
- Roedd angen i nifer o bractisau wella eu polisïau amddiffyn plant ac oedolion a sicrhau bod y staff wedi cyflawni hyfforddiant mewn materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion.
- Canfuwyd gennym hefyd bod angen i nifer o ddeintyddion wella agweddau ar eu gwaith o gadw cofnodion.

### **Arolygiadau o Bractisau Cyffredinol**

- Gwnaethom weithio gydag aelodau o'r cyngor iechyd cymuned lleol wrth arolygu practisau cyffredinol. Dywedodd cleifion wrth y cyngor iechyd cymuned eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth a ddarperir gan eu meddyg teulu a thîm y practis.

- Y brif rwystredigaeth ar gyfer rhai cleifion oedd cael apwyntiadau ac, mewn rhai achosion, y ffaith eu bod yn cael anhawster siarad â'r practis dros y ffôn i drefnu apwyntiad.
- Gwelsom arferion da, yn enwedig o ran cadw cofnodion, systemau cyfathrebu mewnol effeithiol, ac esiamplau da o reoli cwynion.
- Roedd angen i rai practisau cyffredinol wella'r ddarpariaeth o wybodaeth hygyrch i gleifion a'r dulliau o gasglu adborth gan gleifion ynglŷn â gwasanaethau ar sail barhaus.
- Roedd angen i rai practisau cyffredinol wella safon y polisiau amddiffyn plant ac oedolion, a sicrhau bod pob aelod o staff wedi cyflawni hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ac amddiffyn plant ar lefel sy'n briodol i'w swyddogaeth.

## **Gwasanaethau Iechyd Meddwl y GIG**

### Arolygiadau Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

- Roedd yr unedau a ymwelwyd gennym yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ar y cyfan ac yn cynnwys dodrefn addas ar gyfer y grŵp o gleifion. Gwelsom hefyd fod awyrgylch digynnwrf a hamddenol trwy gydol yr holl arolygiadau.
- Gwelsom fod y dogfennau statudol mewn dwy o'r unedau a arolygwyd gennym yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl, ond bod nifer o feysydd lle y gellid gwella'r gwaith o gadw cofnodion yn unol ag arfer da a Chod Ymarfer Cymru y Ddeddf Iechyd Meddwl.
- Mewn un o'r unedau (Llys Maindiff), gwnaeth ein hadolygiad o ddogfennau statudol nodi nad oeddent yn drefnus iawn ac, mewn rhai achosion, bod copïau o ddogfennaeth statudol ar goll mewn rhai ffeiliau. Roedd gennym bryderon hefyd o ran gweithredu'r Ddeddf.

### Gorchmynion Triniaeth Gymunedol

- Gwelsom fod y ddarpariaeth o orchmynion triniaeth gymunedol yn cael ei rheoli gan dîm amlddisgyblaethol a oedd yn gweithio wrth ystyried a gwerthfawrogi barn staff yr holl ddisgyblaethau.
- Gwelsom gyfathrebu da rhwng y timau gwahanol a oedd yn cymryd rhan a gwaith cadw cofnodion da yn cael ei gynnal gan dimau gofal.



- Roedd defnyddio gorchmynion triniaeth gymunedol yn galluogi cleifion i dderbyn gofal yn y ffordd leiaf caethiwus, yn unol â'r hyn a nodir yng Nghod Ymarfer Iechyd Meddwl Cymru.
- Dywedodd y staff fod prosesau adolygu allanol da ar gyfer gorchmynion triniaeth gymunedol a hynny trwy gyfrwng gwrandawiadau gan reolwyr ysbytai a'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl.

### Anabledd Dysgu

- Roedd hwn yn ddarn o waith a wnaed ar y cyd gydag AGGCC, lle buom yn ymweld â chwe awdurdod lleol, gan gynnwys Torfaen yn Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.
- Ar y cyfan, daethom i'r casgliad bod gan y tîm iechyd ar lawr gwlad a'r rhai yn y strwythur rheoli gweledigaeth glir o ran y gofal a'r cymorth yr oeddent yn eu darparu ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, sydd wedi'i hanelu at wella canlyniadau.
- Gwelsom y staff iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd wrth ddarparu gwybodaeth, cyngor, cymorth, asesiadau a chynlluniau gofal i bobl ag anableddau dysgu. Roedd hyn yn cynnwys rhai enghreifftiau rhagorol o'r tîm amlddisgyblaethol yn gweithio gyda'r tîm anableddau dysgu cymunedol, y gwasanaethau cymdeithasol, darparwyr gofal, a gweithwyr proffesiynol iechyd eraill mewn gofal sylfaenol ac eilaidd.
- Gwnaethom nodi'r 'Strategaeth ar gyfer Oedolion sydd ag Anabledd Dysgu' a bod pob un o aelodau'r timau iechyd y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r strategaeth a sut mae eu gwaith yn berthnasol iddi.
- Fodd bynnag, ni welwyd unrhyw gynllunio strategol ar gyfer y dyfodol a oedd yn digwydd ar y cyd â'r awdurdod lleol i nodi beth fydd yn digwydd ar ddiwedd y cyfnod strategaeth ar y cyd cyfredol yn 2017.

## 4. Adolygiadau ac Ymchwiliadau Arbennig

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd AGIC ganfyddiadau ymchwiliad<sup>1</sup> i ddynladdiad gan ddefnyddiwr gwasanaeth iechyd meddwl. Gwnaeth yr adroddiad (Mr N a'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl, yn dilyn dynladdiad a gyflawnwyd ym mis Tachwedd 2014) nifer o argymhellion yn ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Nodwyd y canlynol yn yr adroddiad hwn:

- Dylai Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Carchar EM Caerdydd a Charchar EM y Parc ddatblygu proses lle mae'r gwaith o ffurfio achos yn cael ei gyflwyno a'i ddiweddarau'n rheolaidd, wrth i garcharor symud o garchar i garchar a rhwng gwasanaethau gofal iechyd meddwl. Mae hyn yn ategu at y broses o gysoni a rhannu gwybodaeth, a'i gwneud ar gael, sy'n helpu clinigwyr i ddeall ac ystyried rhaglenni cynllunio gofal a thriniaeth, ble y bo'n briodol, mewn perthynas ag achosion hirsefydlog a chymhleth.
- Dylai Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Carchar EM Caerdydd a Charchar EM y Parc sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i wirio'r sail resymegol dros feddyginiaeth ar bresgripsiwn, yn arbennig pan fydd unigolyn yn dangos hanes o ddiffyg cydymffurfiaeth.
- Dylai rhanddeiliaid sy'n ymwneud â rhyddhad o'r carchar a chynllunio ôl-ofal:
  - a) sicrhau bod systemau ar waith i ganiatáu rhannu gwybodaeth gofal iechyd yn well cyn rhyddhad o'r carchar. Byddai hyn yn helpu i sicrhau cysondeb ac yn amddiffyn rhag atgwymp posibl mewn unrhyw gyflwr iechyd meddwl; ac
  - b) Timau Iechyd Meddwl Mewngymorth y Carchar a Thimau Iechyd Meddwl Cymunedol i weithredu system o apwyntiad dilynol gwirfoddol o fewn un mis i ryddhad unigolyn o'r carchar. Byddai cynnig apwyntiad dilynol o'r fath yn helpu gyda chysondeb gofal ac yn gymorth i unrhyw broblemau gofal uniongyrchol mewn cyfnod cychwynnol o risg uchel.

---

<sup>1</sup> <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/160330argoedhomicidecy.pdf>

- Dylai Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddatblygu ffiniau atebolrwydd amlwg mewn perthynas â phwy sy'n gyfrifol am geisio cysylltu ag unigolion nad ydynt yn mynychu apwyntiadau'n rheolaidd.
- Dylai gweithdrefnau clir a chyfrinachol fod ar waith i randdeiliaid sydd â staff sy'n rhan uniongyrchol neu anuniongyrchol o ddigwyddiadau difrifol, neu sy'n gysylltiedig â nhw, er mwyn cynnig gwasanaethau cymorth seicolegol a thrawma priodol ac amserol iddynt.
- Dylai rhanddeiliaid sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu i deuluoedd a effeithir gan ddigwyddiadau o'r fath, naill ai'n uniongyrchol neu drwy ddangos y ffordd at gymorth. Dylai cymorth hefyd gynnwys dialog parhaus am brosesau ymchwilio sy'n gosod sail ar gyfer dealltwriaeth ac ymddiriedaeth rhwng pob parti.

Ni wnaeth adolygiad AGIC ganfod unrhyw achosion craidd neu ffactorau arwyddocaol a arweiniodd at y digwyddiad anffodus a thrasig ar 6 Tachwedd 2014. Er i AGIC ganfod meysydd i'w gwella ynglŷn â gofal iechyd a chymorth yn ystod ein hadolygiad, a thynnir sylw at y rhai sy'n ymwneud â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan uchod, nid ydym yn credu bod bodolaeth y materion hyn wedi cyfrannu at y digwyddiad trasig hwn.

### **Adolygiad Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru**

Yn ystod 2015-16, gwnaethom gyhoeddi adolygiad o'r trefniadau llywodraethu clinigol sydd ar waith gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, a sut oedd y rhain yn gysylltiedig â chanlyniadau ar gyfer cleifion. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, gwnaethom ganolbwyntio ar wasanaethau'r galon. Mae canfyddiadau allweddol ein hadolygiad fel a ganlyn:

- Roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn mynd trwy gyfnod o drawsnewidiad, gan weithio tuag at roi rhagor o bwyslais ar ansawdd wrth gomisiynu gwasanaethau. Canfuom na fu'r ffocws hwn ar ansawdd yn bresennol bob amser yn y ffordd roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cyflawni ei swyddogaethau.
- Roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar, sy'n rhoi adolygiad o ganlyniadau ac effaith ei waith i leihau amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau'r galon. Roedd yr adolygiad hwn yn nodi diffygion yng ngweithdrefnau'r pwyllgor ar gyfer llywodraethu'r prosiect hwn – er enghraifft, ni roddwyd sicrwydd inni fod y

broses ar gyfer dewis darparwyr yn Lloegr yn cael ei dogfennu'n ddigon cadarn.

- Gwelsom wendidau yn y ffordd roedd Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cael ei weithredu. Er enghraifft, nid oedd gwybodaeth ynghylch pryderon cychwynnol ynglŷn ag amseroedd aros cardioleg wedi cael ei hadrodd i'r pwyllgor mewn modd amserol.
- Mae ein hadolygiad yn codi'r cwestiwn a all Cyd-bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru fod yn gorff ar gyfer gwneud penderfyniadau sydd wir yn annibynnol pan fydd yn cynnwys darparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau arbenigol yng Nghymru.
- Mae canfyddiad allanol bod rôl a chyfrifoldeb Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ynglŷn â rheoli gwasanaethau arbenigol yn aneglur.

Yn gyffredinol, mae ein hadolygiad wedi nodi bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar ddechrau'r broses o gryfhau ei drefniadau llywodraethu clinigol.

Mae angen i bob bwrdd iechyd ddysgu o'r adolygiad hwn ac ystyried y camau gweithredu y mae angen iddynt eu cymryd.

### **Gwerthusiad o adolygiadau dynladdiad a gynhaliwyd gan AGIC ers 2007**

Yn ystod 2015-16, cyhoeddodd AGIC werthusiad o'r adolygiadau dynladdiad a gynhaliwyd ganddi ers 2007. Pwrpas y gwerthusiad oedd asesu effaith adroddiadau AGIC, a'r argymhellion a gyhoeddwyd ers 2007, ar wasanaethau sy'n cael eu darparu i ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl.

Dyma'r themâu cyffredinol yr ymdriniwyd â nhw yn adroddiad gwerthuso AGIC:

- Cynllunio gofal, asesu, ac ymgysylltu â theuluoedd/gofalwyr
- Rheoli risg
- Diagnosis
- Cynllunio rhyddhau ac ôl-ofal
- Gwasanaethau integredig a chydgyssylltiedig
- Cyfathrebu a rhannu gwybodaeth.

Gwelsom fod effaith ein hadroddiadau wedi bod yn amrywiol. Roedd rhai sefydliadau nad oeddent yn destun adolygiad uniongyrchol wedi sefydlu eu proses fewnol eu hunain i ystyried yr argymhellion o bob adroddiad. Fodd bynnag, nid oedd gan rai sefydliadau broses neu ddull ffurfiol ar waith i sicrhau dysgu ehangach yn sgil ein hadroddiadau. Roedd rhwystrau i weithredu'r argymhellion yn codi pan oedd angen camau gweithredu ar draws nifer o sefydliadau neu asiantaethau, gan gynnwys cyrff nad ydynt yn gyrrff iechyd. Fodd bynnag, dywedodd yr holl randdeiliaid a fu'n destun adolygiad fod ein hadolygiadau'n werthfawr iawn ac y dylid parhau â nhw.

Mae AGIC wedi newid y ffordd y mae'n cynnal yr adolygiadau hyn, yn benodol er mwyn hybu dysgu ymysg rhanddeiliaid sy'n rhan uniongyrchol o bob adolygiad. Mae AGIC yn gofyn i'r holl fyrddau iechyd ystyried sut maent yn dysgu yn sgil yr adolygiadau hyn, yn arbennig os nad oeddent wedi bod yn rhan uniongyrchol o ymchwiliad a gynhaliwyd gan AGIC.

### **Adolygiadau Marwolaeth yn y Ddalfa**

Yn ystod 2015-16, cyfrannodd AGIC at un adolygiad marwolaeth yn y ddalfa (achosion naturiol) mewn perthynas â Charchar EM Brynbuga a Phrescoed. Roedd prif ganfyddiad AGIC o'r adolygiad hwn yn ymwneud â'r anawsterau o ran cyfathrebu a'r perthynas rhwng Carchar EM Brynbuga ac Ysbyty Nevill Hall. Yn benodol, o ran cleifion cymhleth sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty a'u dychwelyd i Garchar EM Brynbuga a Phrescoed (carchar heb ofal iechyd 24/7). Gwnaeth yr adolygiad clinigol nodi hefyd nifer o broblemau o ran y trefniadau yn Ysbyty Nevill Hall. Rhannwyd y materion a nodwyd gyda'r bwrdd iechyd a chrëwyd cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion.

## 5. Camau Dilydol a Sicrwydd ar Unwaith

### Camau Dilydol

Yn dilyn pob un o'n harolygiadau, gwnaethom gyhoeddi adroddiad arolygu o'n canfyddiadau. Lle'r oeddem wedi nodi bod angen gwelliant, gwnaethom ofyn i'r bwrdd iechyd neu'r practis ddarparu cynllun gwella i ni er mwyn dangos sut y byddent yn cyflawni'r gwelliannau.

Darparwyd y cynlluniau gan bractisau deintyddol a phractisau cyffredinol o fewn yr amserlen benodedig yn gyffredinol. Roedd y cynlluniau gan y bwrdd iechyd bob amser yn fanwl, yn gynhwysfawr, ac wedi'u derbyn o fewn graddfeydd amser. Cafodd pob ymateb ei werthuso'n unigol gan AGIC a gofynnwyd am fwy o wybodaeth a sicrwydd pan oedd eu hangen. O ganlyniad i hyn, gwnaeth yr ymatebion roi digon o sicrwydd i ni fod y gwelliannau a nodwyd wedi cael sylw, neu yn y broses o'i dderbyn.

Gwnaethom ysgrifennu at y bwrdd iechyd hefyd yn 2015 yn holi am y cynnydd a oedd yn cael ei wneud o ran y gwelliannau a nodwyd gan ein harolygiadau yn ystod 2014-15.

Rhoddyd sicrwydd inni fod y bwrdd iechyd wedi gweithredu'r camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r gwelliannau a nodwyd gennym a/neu wedi cyflwyno tystiolaeth i ddangos bod digon o gynnydd yn digwydd mewn ymateb i'r rhan fwyaf o'r materion hyn.

Cafodd AGIC fwy o sicrwydd yn hyn o beth yn ystod ein rhaglen o arolygiadau ysbyty yn ystod 2015-16. Er i ni ymweld ag adrannau clinigol gwahanol, gwnaethom ystyried yr argymhellion a wnaed y flwyddyn flaenorol. Roedd hyn er mwyn pennu p'un a oedd y problemau hyn wedi'u cyfyngu i'r adrannau a arolygwyd yn 2014-15, neu a oeddent i'w gweld mewn adrannau eraill o fewn y bwrdd iechyd.

Er inni gael sicrwydd eang yn hyn o beth, mae ein gwaith arolygu yn y bwrdd iechyd eleni wedi nodi bod angen cymryd camau gwella ychwanegol mewn rhai meysydd, oherwydd gwnaethom argymhellion eto yn y meysydd canlynol:

- Ansawdd cofnodion nyrsio
- Rheoli meddyginiaeth
- Sicrhau preifatrwydd ac urddas cleifion.

Rydym yn ymwybodol, fodd bynnag, bod y bwrdd iechyd yn parhau i weithredu i fynd i'r afael â'r materion hyn a bydd yn rhoi diweddariad ychwanegol i AGIC yng nghyswllt hyn.

Roedd hefyd yn amlwg o'r gweithgarwch dilynol hwn bod y bwrdd iechyd yn defnyddio ein harolygiadau i wella ansawdd a diogelwch ei wasanaethau drwy sicrhau bod yr argymhellion a wnaed gan AGIC yn cael eu gweithredu ac nad ydynt yn cael eu hefelychu mewn meysydd eraill o'r bwrdd iechyd. Rydym yn arbennig o falch i nodi'r gwaith o ddatblygu Cynllun Gweithredu Thematig gan y bwrdd iechyd sy'n dwyn themâu cyffredin o'n harolygiadau ynghyd, a chaiff hyn ei oruchwylio gan y *'Grŵp Llywio Ymddiried mewn Gofal'*.

### **Sicrwydd ar Unwaith**

Lle y gwnaethom nodi perygl i ddiogelwch cleifion a oedd angen camau gwella ar unwaith, gwnaethom gyflwyno llythyrau i'r bwrdd iechyd a'r practisau yn unol â phroses sicrwydd ar unwaith AGIC.

Yn ystod 2015-16, gwnaethom gyflwyno pedwar llythyr sicrwydd ar unwaith (tri llythyr sicrwydd ar unwaith ar gyfer practisau deintyddol, ac un llythyr sicrwydd ar unwaith mewn perthynas ag arolygiad o Ysbyty Brenhinol Gwent).

Roedd y materion lle bu angen sicrwydd ar unwaith gan bractisau deintyddol fel a ganlyn:

- Dadheintio a rheoli heintiau
- Peidio â rhoi gwybod i'r Awdurdod Iechyd a Diogelwch ynghylch yr offer radiograffig a ddefnyddir ar y safle
- Hyfforddiant nad oedd yn gyfredol mewn dadebru cardio-pwlmonaidd
- Nifer annigonol o gyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn achos brys.

Roedd y materion lle bu angen sicrwydd ar unwaith fel ymateb i'r arolygiad ysbyty fel a ganlyn:

- Cleifion nad oeddent yn gwisgo bandiau ar eu harddyrnau
- Gwelwyd adrenalin a glwcos oedd wedi mynd heibio eu dyddiad cadw yn y 'bag bachu' cyffuriau brys a gadwyd ar y ward.

Ym mhob un achos, gwnaethom dderbyn digon o sicrwydd bod camau gweithredu prydlon wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

## 6. Llywodraethu ac Atebolrwydd

Nodir y trefniadau llywodraethu ar gyfer GIG Cymru yn *Gofal Diogel, Gofal Tosturiol: Fframwaith Llywodraethu Cenedlaethol i alluogi gofal o ansawdd da yn GIG Cymru*.<sup>2</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan sy'n gyfrifol am ansawdd a diogelwch y gwasanaethau y mae'n eu darparu a'u comisiynu.

Mae AGIC wedi arsylwi nifer o bwyllgorau ansawdd a diogelwch yn cael eu cynnal ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Rydym ni hefyd wedi arsylwi cyfarfodydd is-bwyllgorau ar gyfer iechyd deintyddol ac iechyd meddwl. Mae arsylwi ar y pwyllgorau hyn wedi rhoi eglurder i AGIC o ran y dull strategol a ddefnyddir i asesu ansawdd a diogelwch o fewn y bwrdd iechyd. Yn ystod y pwyllgorau hyn, gwelsom adroddiadau arolygu AGIC yn cael eu craffu ynghyd â'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig gan y staff ac aelodau annibynnol hefyd.

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth yng Nghymru gwblhau hunanasesiad o'u sefyllfa o ran modiwl llywodraethu ac atebolrwydd Safonau Gofal Iechyd Cymru, gan ddyfarnu sgôr ar gyfer eu haeddfedrwydd ar raddfa o 1-5.

Gwnaeth yr hunanasesiad a gynhaliwyd a chwblhawyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar gyfer 2014-15 ddangos bod arfarniad y sefydliad o'i drefniadau llywodraethu yn effeithiol. Yn benodol, nodwyd y canlynol:

Fel rhan o'r thema 'Pennu'r Cyfeiriad', roedd y bwrdd o'r farn ei fod wedi dangos Lefel 4 o ran aeddfedrwydd a'i fod yn llywodraethu ei fusnes yn dda drwy bwysleisio'r ymgyrch Urddas a'r gwaith ar y Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau fel arfer nodedig. Gwnaeth y bwrdd nodi aeddfedrwydd ar Lefel 4 ar gyfer y thema 'Galluogi Cyflenwi', gan nodi bod ei ddull o ran cydweithio a

---

<sup>2</sup> Mae *Gofal Diogel, Gofal Tosturiol: Fframwaith Llywodraethu Cenedlaethol i alluogi gofal o ansawdd da yn GIG Cymru* yn disgrifio swyddogaethau a chyfrifoldebau a'r hyn sydd angen ei roi ar waith i geisio a darparu sicrwydd ynglŷn ag ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Safe%20Care%2C%20Compassionate%20Care%20-%20Welsh%20Final%20version%20for%20publication%20-%20January%202013.pdf>



gweithio mewn partneriaethau yn ganolbwynt allweddol ar gyfer y bwrdd iechyd. Yn yr un modd, rhoddodd y bwrdd sgôr aeddfedrwydd o Lefel 4 ar gyfer y thema 'Cyflenwi Canlyniadau, Cyflawni Rhagoriaeth' i'w hun.

Yn ogystal, daeth datganiadau o Adroddiad Blynyddol 2015 Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i'r casgliad bod y bwrdd yn ceisio gwella'n barhaus, ond mae'n wynebu nifer o heriau yn y tymor byr, wrth iddo weithio hefyd i weddnewid gwasanaethau dros y tair blynedd nesaf.

## 7. Ymgysylltu

Mae AGIC wedi arsylwi nifer o gyfarfodydd ansawdd a diogelwch ac rydym wedi cael ein gwahodd ac wedi mynychu digwyddiadau a gynhaliwyd gan y bwrdd iechyd a oedd yn pwysleisio gwelliannau lleol mewn prosesau.

Mae rheolwr perthynas a phrif weithredwr AGIC wedi cyfarfod â phrif weithredwr a chadeirydd y bwrdd iechyd yn ystod y flwyddyn. Hefyd, mae nifer o staff AGIC wedi bod yn trafod amrywiaeth o faterion â staff y bwrdd iechyd. Ar bob adeg, mae'r bwrdd iechyd wedi ymateb i geisiadau ar gyfer cyfarfodydd gwybodaeth yn gadarnhaol ac yn brydlon. Bu nifer o achlysuron lle'r oedd AGIC wedi ysgrifennu at y bwrdd iechyd i fynd ar drywydd pryderon penodol ynglŷn â gwybodaeth leol ac ymdriniwyd â'r rhain yn briodol hefyd. Pan ofynnwyd iddo, mae'r bwrdd iechyd wedi rhannu ymchwiliadau gydag AGIC. Ar rai adegau, mae'r adroddiadau mewnol hyn wedi cael eu hoedi yn hirach na'r disgwyl, a gallai hyn fod o ganlyniad i'w cymhlethdod.

Cafwyd ymatebion prydlon i ganfyddiadau arolygiadau ac mae llythyrau sicrwydd ar unwaith wedi derbyn sylw prydlon a chynhwysfawr hefyd.

## 8. Gwaith Arolygu

### Gwasanaeth Iechyd Gwladol

#### Ysbyty

|  |                     |
|--|---------------------|
| 1. <a href="#">Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Gwynllyw</a> | 3 a 4 Tachwedd 2015 |
|--|---------------------|

#### Practis Cyffredinol

|   |                  |
|---|------------------|
| 2. <a href="#">Practis Grŵp Bellevue</a>      | 23 Chwefror 2016 |
| 3. <a href="#">Meddygfa The Rugby</a>         | 1 Mawrth 2016    |
| 4. <a href="#">Practis Meddygol Ringland</a>  | 7 Mawrth 2016    |
| 5. <a href="#">Canolfan Feddygol Avicenna</a> | 9 Mawrth 2016    |

#### Practis Deintyddol

|   |                    |
|---|--------------------|
| 6. <a href="#">Practis Deintyddol Ringland</a>  | 20 Ebrill 2015     |
| 7. <a href="#">Practis Deintyddol Sain Silian (St Julians)</a>  | 22 Ebrill 2015     |
| 8. <a href="#">Practis Deintyddol Malpas</a>  | 28 Ebrill 2015     |
| 9. <a href="#">Practis Deintyddol Castle Street, Tredegar</a>   | 8 Mai 2015         |
| 10. <a href="#">Gofal Deintyddol Crown Cottage, Y Sgwâr, Bedwas, Caerffili, CF83 8DY</a>  | 1 Mehefin 2015     |
| 11. <a href="#">Practis Deintyddol Llantarnam</a>   | 16 Mehefin 2015    |
| 12. <a href="#">Practis Deintyddol Goodwin Partnership</a>  | 17 Mehefin 2015    |
| 13. <a href="#">Gateway OHS Limited</a>   | 30 Mehefin 2015    |
| 14. <a href="#">Practis Deintyddol y Lawnt, Uned 22, Ystâd Ddiwydiannol y Lawnt, Rhymni, Tredegar, NP22 5PW &lt;<a href="http://hiw.org.uk/docs/hiw/inspectionreports/151027lawndental.en.pdf">http://hiw.org.uk/docs/hiw/inspectionreports/151027lawndental.en.pdf</a>&gt;</a> | 28 Gorffennaf 2015 |
| 15. <a href="#">Deintyddfa Bridges, Cil-y-coed, Gwent</a>   | 28 Awst 2015       |
| 16. <a href="#">IDH Dental Clinic, 13 Stryd Fawr, Bargod, Caerffili, CF81 8QZ</a>   | 1 Rhagfyr 2015     |
| 17. <a href="#">Practis Deintyddol Brynbuga</a>   | 2 Chwefror 2016    |
| 18. <a href="#">Practis Deintyddol Pont-hir (Grŵp Deintyddol Restore)</a>   | 2 Mawrth 2016      |
| 19. <a href="#">Practis Deintyddol Beaufort Park, Uned 1, Beaufort Park, Thornwell, Cas-gwent, NP16 5UH</a>   | 2 Mawrth 2016      |

|   |                |
|---|----------------|
| 20. <a href="#">Chepstow Orthodontics Ltd, 6A St Mary's Arcade, Cas-gwent, NP16 5EU</a>             | 8 Mawrth 2016  |
| 21. <a href="#">Practis Deintyddol Thomas &amp; Stroud, 383 Heol Cas-gwent, Casnewydd, NP19 8HL</a> | 9 Mawrth 2016  |
| 22. M J Dental Services Limited, 4 Mervyn Terrace, Osborne Road, Pont-y-pŵl, NP4 6NW                | 10 Mawrth 2016 |
| 23. <a href="#">Deintyddfa Abertridwr, 5 Stryd Thomas, Abertridwr, Caerffili, CF83 4AU</a>          | 14 Mawrth 2016 |
| 24. <a href="#">Practis Deintyddol Matthews a Jones, 5 Worcester Street, Trefynwy, NP25 3DF</a>     | 15 Mawrth 2016 |
| 25. <a href="#">Deintyddfa Abersychan</a>   | 16 Mawrth 2016 |
| 26. <a href="#">Deintyddfa Cardiff Road, 67 Heol Caerdydd, Casnewydd, NP20 2EN</a>                  | 21 Mawrth 2016 |
| 27. <a href="#">S Lodge, New Inn Surgery, 111 The Highway, New Inn, Pontypŵl, NP4 0PJ</a>           | 22 Mawrth 2016 |
| 28. <a href="#">Gofal Deintyddol Bridge, Llanover Buildings, Trecelyn, Gwent, NP11 4EX</a>          | 22 Mawrth 2016 |
| 29. <a href="#">Angel Way Dental Care, 58 Heol Caerdydd, Bargod, CF81 8PA</a>                       | 23 Mawrth 2016 |
| 30. <a href="#">Mr R Isaac, Deintyddfa, 17 St James Square, Trefynwy, NP25 3DN</a>                  | 29 Mawrth 2016 |
| 31. <a href="#">A &amp; M Jones Healthcare, 26 Commercial Street, Pontnewydd, Cwmbrân, NP44 1DZ</a> | 30 Mawrth 2016 |
| 32. <a href="#">J Woodward, 89 Bailey Street, Bryn-mawr, NP23 4AN</a>                               | 30 Mawrth 2016 |
| 33. <a href="#">Family Dental Health Centre, 19 Bedwlwyn Road, Ystrad Mynach, CF82 7AA</a>          | 31 Mawrth 2016 |

#### **Deddf Iechyd Meddwl**

|   |                    |
|---|--------------------|
| 34. <a href="#">Llanfrechfa Grange</a>                | 19 Mai 2015        |
| 35. <a href="#">Ysbyty Aneurin Bevan</a>              | 21 Gorffennaf 2015 |
| 36. <a href="#">Llys Maindiff, y Fenni (dwy ward)</a> | 9 Medi 2015        |

#### **Gorchymyn Triniaeth Gymunedol**

|   |               |
|---|---------------|
| 38. <a href="#">Gorchymyn Triniaeth Gymunedol Aneurin Bevan</a> | 9 Mawrth 2016 |
|---|---------------|

## **Anabledd Dysgu**

|                           |                |
|---------------------------|----------------|
| 39. Aneurin Bevan/Torfaen | 27 Ionawr 2016 |
|---------------------------|----------------|

## Gofal Iechyd Annibynnol

### Hosbis (Oedolion)

|                                   |                    |
|-----------------------------------|--------------------|
| 1. <a href="#">Hosbis St Anne</a> | 29 Gorffennaf 2015 |
|-----------------------------------|--------------------|

### Deddf Iechyd Meddwl

|  |                 |
|--|-----------------|
| 2. <a href="#">St Teilo</a>                    | 28 Ebrill 2015  |
| 3. <a href="#">Llys Llan-arth (saith ward)</a> | 11 Mai 2015     |
| 10. <a href="#">Aderyn</a>                     | 17 Mai 2015     |
| 11. <a href="#">Regis Healthcare, Glynebwy</a> | 23 Mehefin 2015 |
| 12. <a href="#">Cefn Carnau (dwy ward)</a>     | 11 Awst 2015    |

### Uned Iechyd Meddwl

|  |                 |
|--|-----------------|
| 14. <a href="#">St Teilo</a>                   | 28 Ebrill 2015  |
| 15. <a href="#">Llys Llan-arth</a>             | 11 Mai 2015     |
| 16. <a href="#">Aderyn</a>                     | 17 Mai 2015     |
| 17. <a href="#">Regis Healthcare, Glynebwy</a> | 23 Mehefin 2015 |
| 18. <a href="#">Cefn Carnau</a>                | 11 Awst 2015    |

### Ysbyty Deintyddol

|   |                  |
|---|------------------|
| 19. <a href="#">Clinig Kensington Court</a> | 12 Tachwedd 2015 |
|---|------------------|

### Laser

|   |                    |
|---|--------------------|
| 20. <a href="#">The Beauty Therapy &amp; Electrosis Clinic, Llawr 1af, 46a Commercial Street, Casnewydd</a> | 10 Mehefin 2015    |
| 21. <a href="#">Clinig Cas-gwent</a>  | 13 Gorffennaf 2015 |
| 22. <a href="#">CosmetixliniC</a>   | 5 Awst 2015        |
| 23. AMA Limited   | 21 Ionawr 2016     |
| 24. <a href="#">MYA Cosmetic Surgery Ltd, 13 Heol y Castell, Caerdydd</a>                                   | 26 Ionawr 2016     |

### Ymchwiliad – Marwolaethau yn y Ddalfa

|                                      |                |
|--------------------------------------|----------------|
| 25. Charchar EM Brynbuga a Phrescoed | 22 Ionawr 2016 |
|--------------------------------------|----------------|